AM DDIM

Cyfnodolyn Synod Cymru Yr Eglwys Fethodistaidd

Rhifyn 222 Rhagfyr 2019 – Ionawr 2020

Synod Cymru

# Gwyliedydd

Pan gymeraist arnat waredu dyn,
ni ddiystyraist fru y Wyryf





# O'R GADAIR AR Y GOROR

gan y Parchedig **Jennifer Hurd**

Tymor y Nadolig! Bydd rhai yn teimlo'n gyffrous, eraill yn dyheu am gael cuddio mewn ogof tan mae popeth wedi mynd heibio. Bydd rhai yn ochneidio ac yn sychu deigryn o lygad. Bydd rhai eisiau eistedd yn dawel er mwyn profi rhyfeddod y tymor. Eraill wedyn yn bownsio o gwmpas efo sglein yn eu llygaid, yn gweiddi a chwerthin. Yn sicr, bydd rhai yn dweud, "Dolig? I'r plant mae o, ynte? Well inni wneud ymdrech er eu mwyn nhw." Os ydych chi'n un o'r rhain, mae gen i newyddion i chi! Heb amheuaeth, canolbwynt y Nadolig yw plentyn a gwyrth bywyd newydd, ond mae yna bobl hŷn yn stori'r Geni hefyd, rhai ohonynt yn hen iawn. Maen nhw'n dangos i ni fod y Nadolig i bawb. Gadewch i ni fynd i gyfarfod ag un ohonynt yn efengyl Luc, pennod 2, adnodau 36-38...

"Croeso! Anna ydw i. Peidiwch â chwerthin – dwi'n gwybod fy mod i'n edrych yn hen, ac yn hen ffasiwn, a dwi ddim yn gallu sefyll yn syth na gweld yn dda iawn, ac mae fy ngwallt wedi britho a'm croen yn llawn rhychau. Dwi ddim yn gwybod beth yw fy oedran. Dwi wedi anghofio! Mae rhai yn dweud 84; eraill yn dweud 105. Dyna sut dwi'n teimlo, y peth cyntaf yn y bore! Ond tu mewn, dwi fel merch ifanc. Mae fy ysbryd yn canu fel aderyn, ddydd a nos, ac mi ddyweda i wrthych chi pam. Dwi eisiau i'ch ysbryd chithau ganu hefyd!

Flynyddoedd yn ôl, roedd gen i ŵr. O! Roedden ni'n hapus! Am saith mlynedd, mi fues i'n wraig i'r dyn gorau yn y byd. Ond bu farw fy ngŵr annwyl, yn sydyn iawn. Alla i ddim disgrifio fy ngalar. Roedd y byd ar ben i mi. Dim ond ifanc oeddwn i. Wnes i ystyried mynd yn ôl i wlad Galilea – un o lwyth Aser ydw i, ac mae ein gwreiddiau yn ddwfn yng Ngalilea. Ond yn y diwedd, penderfynais aros yma yn Jerwsalem, a cheisio cymorth yr Arglwydd yn y deml. Agosáu at Dduw; gweddïo; myfyrio; ceisio ei ffyrdd – dyna'r ateb i bob her mewn bywyd, yn fy mhrofiad i. A dweud y gwir, wrth i mi dreulio amser yn y deml, daeth pobl i werthfawrogi fy nghymorth a'm cyngor a'm dealltwriaeth o bethau Duw. Dywedodd rhai fy mod i'n broffwyd, ond dwi ddim yn siŵr am hynny. Dim ond Duw a ŵyr. Mae un peth yn sicr, roeddwn i'n dyheu am weld rhyddhad Jerwsalem a'i phobl rhag popeth sy'n ceisio cymryd bywyd yn ei holl gyflawnder oddi arnom ni. Fel pob Iddew, roeddwn i'n dyheu am ddyfodiad y Meseia, cymaint felly nes imi dreulio pob munud o bob dydd yn y deml, yn addoli Duw, yn ymprydio ac yn gweddïo. Fyddwn i byth yn mynd i unlle arall a phrin y byddwn yn cysgu. Roedd fy nghalon yn llawn dyhead am weld cyflawni pwrpas Duw. Dyna sut yr es i mor hen – roeddwn i mor brysur yn gweddïo, wnes i ddim yn sylwi fod amser yn mynd heibio!

Ond **mae** amser wedi mynd heibio a finnau wedi derbyn fy ngwobr! Dwi wedi gweld y Meseia! Nid fi oedd y cyntaf. Gwelodd Simeon y bychan cyn fi – hen ŵr ydi o sy'n dod i'r deml yn rheolaidd – ond dydw i ddim yn genfigennus (wel, ddim wir!). Daeth cwpl i'r deml efo'u baban i wneud ynglŷn ag ef yn unol ag arfer y Gyfraith. Mi welais i nhw yn siarad â Simeon, a sylweddolais i yn syth nad oedd o'n faban cyffredin. Dim o gwbl! Mi es i atynt, ac mi ganais i gân o fawl i Dduw. Y Meseia! Yn y cnawd! Person fel chi a fi! Dipyn o sioc i'r rhieni, y gân yna, mae'n rhaid dweud, ond roedd y bychan wrth ei fodd! Efallai fy mod i'n hen, ond dwi'n gallu cario tôn o hyd, yn arbennig i foli Duw!

A dyna beth fydda i'n ei wneud rŵan, tan ddiwedd fy oes. Canu a dweud wrth bawb sy'n barod i wrando am y baban arbennig yna, y Meseia, rhyddhad Jerwsalem. Dwi'n ymestyn allan at bawb o'm cwmpas, yn eu hangen, i'w cysuro, eu calonogi a'u cynorthwyo. Mae yna gymaint o ddylanwadau sy'n ceisio ein hamddifadu o lawenydd a bywyd yn ei holl gyflawnder, ond dwi'n gwybod nad dyna ewyllys Duw, oherwydd dwi wedi gweld ei Feseia, ac mae'r byd wedi newid am byth! Felly peidiwch ag anwybyddu hen wraig fel fi – rydyn ni'n gwybod am yr hanfodion, ac mae Duw yn ein defnyddio i rannu ei newyddion da. Llawenydd y baban bach i chi, a thangnefedd tu hwnt i eiriau. Amen!"

## Y Cadeirydd yn pregethu yn y gwahanol Ardaloedd

**Rhagfyr 2019**

| | |
|---|---|
| 1 | Ardal Llanrhaeadr, a Phenrhyndeudraeth |
| 8 | Ardal Glannau Maelor |
| 15 | Ardal Bathafarn |
| 22 | Ardal Môn ac Arfon |
| 29 | Ardal Glannau Maelor |

**Ionawr 2020**

| | |
|---|---|
| 5 | Ardal Dyffryn Conwy |
| 12 | Y Trallwng a Rhosllanerchrugog |
| 19 | Ardal Glannau Meirion a Dyfi |
| 26 | Ardal Bathafarn, a Llanwddyn |

Gweddïwn am fendith Duw ar ymweliadau'r Cadeirydd ac ar bawb sy'n pregethu'r Efengyl.


Synod Cymru

# Gwyliedydd

**CYFNODOLYN SYNOD CYMRU YR EGLWYS FETHODISTAIDD**
Sefydlwyd 1877 – Cyfres Newydd 1987

**RHIF 222**
**RHAGFYR 2019 – IONAWR 2020**

Cyhoeddir 6 rhifyn y flwyddyn – am ddim i aelodau a chyfeillion Synod Cymru. 6 rhifyn drwy'r post £5.

**BARN Y CYFRANWYR UNIGOL A FYNEGIR YN YR EITEMAU UNIGOL**

**GOLYGYDDION**


**ROBIN JONES**
LLYS ALAW,
18 STAD ERYRI
BETHEL,
CAERNARFON
GWYNEDD LL55 1BX
Ffôn 01248 670140
Ffôn symudol 07780 869907
e-bost robinbethel@tiscali.co.uk

**FFION ROWLINSON**
CRUD YR AWEL
LÔN NEWYDD COETMOR
BETHESDA,
GWYNEDD
LL57 3DT
Ffôn 01248 605365
Ffôn symudol 07554 958723
e-bost ffion.rowlinson@trysor.f9.co.uk


**DYDDIAD CAU**
4 IONAWR 2020

Dylid gwneud sieciau yn daladwy i "Yr Eglwys Fethodistaidd – Talaith Cymru"

Dyluniwyd gan Elgan Griffiths
Argraffwyd gan Wasg y Lolfa

Llun y clawr gan Gino Santa Maria


# Ymweliad Llywydd ac Is-lywydd y Gynhadledd



Mae croeso cynnes i bawb ddod i gwrdd â'r Parchg Ddr Barbara Glasson, Llywydd y Gynhadledd Fethodistaidd 2019-2020, a'r Is-lywydd yr Athro Clive Marsh, pan fyddant yn ymweld â Chymru rhwng y 7fed a'r 9fed o Chwefror 2020. Bydd oedfa yn eu cwmni am 10.30 fore Sul y 9fed, yn Sant Paul, Aberystwyth – croeso i bawb. Bydd cyfleoedd eraill hefyd i'w cyfarfod yn ystod y penwythnos, Barbara yn y Gogledd a Clive yn y De yn ôl pob tebyg. Cawn yr union fanylion erbyn y rhifyn nesaf. Edrych ymlaen!

## Rhoddion

Diolch o galon am yr ymateb hael i'r apêl arbennig a wnaed yn ddiweddar, am roddion i helpu gyda chost cyhoeddi a dosbarthu'r *Gwyliedydd*. Diolch yn fawr iawn i bawb.

| | |
|---|---|
| • Y Parchedig Gwilym O Jones, Croesoswallt | £ 50-00 |
| • Dienw | £ 25-00 |
| • Eglwys Gydenwadol Llangollen | £ 20-00 |
| • Seion, Pwllheli | £600-00 |
| • Jerwsalem, Wrecsam | £ 25-00 |
| • Preswylfa, Cyffordd Llandudno | £ 20-00 |
| • Bethel, Amlwch | £ 50-00 |
| • Salem, Pentre Helygain | £ 30-00 |
| • Saron, Bethel | £ 50-00 |
| • Horeb, Croesoswallt | £ 25-00 |
| • Shiloh, Tregarth | £ 50-00 |
| • Ebeneser, Trefor, Môn | £ 20-00 |
| • Seion, Glyndyfrdwy | £100-00 |
| • Cyn-aelodau Soar, Tre'r ddôl | £ 20-00 |
| • Maelog, Pencarnisiog, Môn | £ 25-00 |
| • Valerie Ellis Jones, Tregarth, er cof annwyl am David | £ 10-00 |
| • Norah O'Brien, Penrhosgarnedd, er cof am ei thad a'i mam | £ 10-00 |
| • Eleri Hughes, Bangor: er cof am fy rhieni a'm chwiorydd annwyl, Evelyn a Barbara – bob amser yn fy meddyliau. | £ 20-00 |
| **Cyfanswm** | **£1,150-00** |

## Cyfarchion Arbennig

Croeso adref cynnes iawn i un o fechgyn dewraf Aberystwyth, yn dilyn llawdriniaeth yn un o ysbytai mawr Llundain yn ddiweddar.

Dymuniadau gorau un i ti Iestyn.

# Cnoi Cil

gan Gwyndaf Roberts



Wedi i'r teulu symud o sir Gaernarfon i sir Ddinbych, fe fûm yn mynychu ysgol eglwys am y pum mlynedd olaf o'm cyfnod cynradd. Saesneg oedd yr iaith weithredol a thrwyddi hi y rhoddwyd gwersi crefyddol i bawb. Rhan o'r gwersi oedd cyd-adrodd y colectau a'r Credo nes ein bod yn eu gwybod ar ein cof. Yn anffodus ni wnaed unrhyw ymdrech i esbonio'r geiriau astrus a ddysgwyd gennym. Fe arhosodd un penbleth am amser wrth imi gredu mai Eglwys Babyddol oedd Eglwys y Plwy' gan fod y Credo yn sôn am yr Eglwys lân gatholig! Clywsom am Gristnogion yn cael eu llarpio gan lewod ond fe fyddai esboniad syml o gefndir Credo Nicea wedi bod o les i bawb.

Bu canrifoedd cynnar Cristnogaeth yn rhai tymhestlog iawn. Yn y flwyddyn 202 OC, fe ddeddfwyd fod tröedigaeth Gristnogol yn anghyfreithlon yn yr Ymerodraeth Rufeinig ac erbyn canol y ganrif roedd erledigaeth ffyrnig yn rhan o fywyd adloniadol dyddiol y boblogaeth. Pan ddaeth Diocletian yn ymerawdwr yn 284, ei nod personol oedd llwyr ddiddymu Cristnogaeth. Llosgodd ei filwyr eglwysi a sgroliau sanctaidd yn ystod y cyfnod a elwir Yr Erledigaeth Fawr. Daeth yr erlid i ben yn ddisymwth pan ymddeolodd Diocletian a phenodi dau ymerawdwr, ifanc a hŷn, i reoli yn y Gorllewin a dau arall i weithredu yn y Dwyrain. Canlyniad hyn oedd rhyfel cartref a'r gŵr a ddaeth yn Ymerawdwr yn 312 oedd Cystennin. Y noson cyn y frwydr ar lan afon Tiber, cafodd freuddwyd a gwelodd groes o oleuni yn yr awyr a'r geiriau ***Gorchfyga gyda hon.*** Y bore canlynol rhoddwyd darlun o groes ar dariannau'r milwyr wedi'u llunio o lythrennau enw Crist yn yr iaith Roeg sef ***CHI RHO.*** Gan feddwl bod ei lwyddiant yn deillio o arweiniad Duw'r Cristnogion, mabwysiadodd slogan trawiadol: ***Un Duw, Un Ymerawdwr.***

Er mawr syndod i Cystennin, darganfu'n gynnar nad oedd cytundeb ymhlith Cristnogion ynglŷn â natur Duw na'i berthynas ag Iesu Grist. Roedd rhai yn pwysleisio Duwdod Crist tra bo eraill yn gwadu ei Ddyndod. Roedd eraill yn ei weld fel proffwyd a allai wneud gwyrthiau ac yn llefaru gyda grym dwyfol ond heb fod yn ddwyfol ei hunan. Os oedd Cystennin am sefydlu ei hun fel arweinydd yr Ymerodraeth roedd yn rhaid cael cytundeb ar bwy oedd arweinydd y nefoedd. I geisio'r cytundeb hwn, galwodd holl arweinwyr yr eglwys i Nicea yn 325 a'r hyn a gafwyd yno oedd Credo Nicea. Bellach i Cystennin roedd Iesu Grist y Mab o'r un hanfod â Duw y Tad.

Yn anffodus roedd y Credo yn arwain Cristnogion i ofyn llawer mwy o gwestiynau astrus, yn arbennig felly ynglŷn â'r Ysbryd Glân. Ymhen amser Awstin o Hippo (354-430) a ddyfarnodd fod Duw yn Un ond bod ganddo Dair Ffurf, ***Tad, Mab ac Ysbryd Glân***. Roedd y tri yn meddu ar yr un mesur o ddwyfoldeb ac yn bodoli ar ddechreuad amser. Os oedd athrawiaeth y Drindod yn eglur i Awstin, roedd eraill mewn penbleth mawr. Ond os oedd y pethau hyn yn anodd i'w deall ac yn tresmasu ar reswm, ac yn gwrthddweud y diffiniad traddodiadol o Dduw, y cyngor a gafwyd oedd y dylai credinwyr dderbyn y Drindod fel dirgelwch fel y dylid gyda dirgelion eraill y ffydd.

Cam nesaf yr Eglwys oedd galw Cyngor Chalcedon yn 451 i gadarnhau bod Iesu Grist, er ei fod yn wir Dduw, hefyd yn wir Ddyn. Gyda'r gosodiad hwn roedd Cristnogaeth yn dileu'r syniad Iddewig am un Duw anwahanadwy. Ychydig dros ganrif wedyn yn Arabia dechreuodd cred newydd unduwiaeth ar ei thaith a fyddai, ymhen amser, yn herio'r syniad Cristnogol am Dduw wedi'i ddynoli. Heriau mwyaf Cristnogaeth ein cyfnod ni yw twf Islam a'r modd y gallwn gyd-fyw yn heddychlon gyda deiliaid y grefydd honno.

Nodwedd amlwg bywyd yr Eglwys yn y Gorllewin a'r Dwyrain yn ystod y cyfnod o'r bumed ganrif i'r 11eg ganrif oedd yr ymrafael rhwng Rhufain ac arweinwyr yr eglwys yng Nghaer Gystennin. Tra bo eglwys y Gorllewin yn ddiwinyddol dawel, roedd yna ddadlau di-baid yn y Dwyrain. Yn athroniaeth y Groegiaid yr oedd gwreiddiau diwinyddiaeth y Dwyrain tra bo llawer o syniadau Eglwys y Gorllewin yn seiliedig ar y ddeddf Rufeinig. Penllanw'r dadlau mawr oedd pwyslais y Gorllewin ar y syniad bod yr Ysbryd Glân yn deillio o'r Tad a'r Mab tra bo'r Dwyrain yn dal mai o'r Tad yn unig y daeth. Ychwanegwyd ***o'r Mab*** i Gredo Nicea gan y Gorllewin heb drafod gyda'r Dwyrain. Gan nad oedd Eglwys y Dwyrain yn derbyn dibriodrwydd offeiriaid nac yn fodlon i esgobion yn unig weinyddu conffyrmasiwn dwysaodd y cweryl. Bu'r defnydd o fara heb ei lefeinio yn y sacrament yn broblem ac nid oedd offeiriaid y Dwyrain yn fodlon cyd-addoli gydag offeiriaid oedd wedi eillio eu gwallt a'u barfau. Yn 1054 esgymunodd y Pab Eglwys y Dwyrain a gwnaeth y Patriarch yntau'r un fath i Eglwys y Gorllewin. Hwn oedd y rhaniad mwyaf yn hanes yr Eglwys hyd nes byddai'r Diwygiad Protestannaidd yn rhwygo'r Eglwys Gristnogol unwaith eto.

Mae penderfyniadau crefyddol y gorffennol yn rhan annatod o sefyllfa'r Eglwys Gristnogol heddiw. Ond mewn byd o wahanol gredoau mae'n rhaid inni ddarganfod ffordd o ymddwyn sy'n parchu gwahanol farnau tra ar yr un pryd yn hawlio'r rhyddid i ddatgan y gwirioneddau rydym yn eu harddel. Ffordd trwy ddrain sydd gennym a bydd rhaid ei theithio yng nghwmni'r Un a ddioddefodd y Goron Ddrain dros bawb.



# A daeth y Gair yn gnawd

## *gan y Parchedig J Bryn Jones*

Ers yn gynnar yn hanes yr Eglwys Gristnogol, fe ddatblygodd cylch blynyddol o gofio a dathlu bywyd, marwolaeth ac atgyfodiad yr Arglwydd Iesu, rhodd yr Ysbryd Glân a gweinidogaeth yr holl saint sydd dros y canrifoedd wedi rhoi i ni esiampl a lledaenu'r Ffydd. Byddwn yn nodi dyddiau arbennig bob blwyddyn megis Dydd Gwener y Groglith, Sul y Pasg a'r Sulgwyn, ac fe rennir y flwyddyn yn dymhorau gan ddechrau gyda'r Adfent pan edrychwn ymlaen at y Nadolig. Daw Sul cyntaf yr Adfent oddeutu diwedd Tachwedd neu ddechrau mis Rhagfyr; eleni fe ddaw ar Ragfyr y 1af. Tymor yr Adfent sydd yn ein harwain at y dydd pan gofiwn eni'r Iesu – y digwyddiad mwyaf a phwysicaf erioed. Gellid dadlau mai Sul y Pasg yw'r adeg bwysicaf gan mai dyna pryd y byddwn yn dathlu'r Atgyfodiad ond, wedi'r cyfan, oni bai fod Iesu wedi cael ei eni, ni fyddai'r fath beth ag Atgyfodiad. Gadewch inni ryfeddu unwaith eto at neges y Nadolig i'r holl fyd: "Do, carodd Duw y byd gymaint nes iddo roi ei unig Fab er mwyn i bob un sy'n credu ynddo ef beidio â mynd i ddistryw ond cael bywyd tragwyddol" (Ioan 3:16).

Pan ddaw'r Nadolig fe'i caf yn anodd peidio â mynd nôl i ddirwasgiad y 30au yn y ganrif ddiwethaf. Cofiaf ein rhieni ar noswyl Nadolig yn dod i'r llofft yn dawel ac yn gosod hosan wrth draed y gwely. Byddem yn deffro'n fore gan edrych ymlaen at weld beth oedd yr anrhegion – oren ac afal ac ychydig o gnau yn amlach na pheidio, ond roeddent yn werthfawr iawn i ni fel plant. Cefais fy ngeni ym 1924 rhwng dau ryfel byd, yng nghyfnod tlodi ac afiechydon – yn enwedig T.B. – a pha ryfedd, oherwydd does dim daioni mewn rhyfel, ond rydym yn hir yn dysgu'r wers. Erbyn heddiw, mae'r agwedd at y Nadolig wedi newid a materoliaeth yn amlwg iawn. Derbyniais daflen drwy'r drws yn ddiweddar yn cynnig cwrw arbennig ac arno mewn llythrennau clir: "Get Christmas Sorted Early". Yn sicr, mae dylanwad materoliaeth yn gryf yn y gymdeithas lle rydym yn byw. Mae rhai hyd yn oed yn holi pam fod yn rhaid i Iesu Grist fod yn rhan o'r Nadolig!

Gadewch i ni fod yn glir, dyma ein cred fel Cristnogion: "Yn y dechreuad yr oedd y Gair; yr oedd y Gair gyda Duw, a Duw oedd y Gair. Yr oedd ef yn y dechreuad gyda Duw. Daeth pob peth i fod trwyddo ef; hebddo ef ni ddaeth un dim sydd mewn bod...A daeth y Gair yn gnawd a phreswylio yn ein plith, yn llawn gras a gwirionedd; gwelsom ei ogoniant ef, ei ogoniant fel unig Fab yn dod oddi wrth y Tad." (Ioan 1:1,14).

Dymunaf Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i olygyddion a holl ddarllenwyr y *Gwyliedydd*.




# GAIR BACH

## *gan y Parchedig John Pritchard, Llanberis*



**Ein Cynrychiolydd Etholedig**

Mae'n anodd bod yn gwbl gyfamserol mewn cyfnodolyn deufisol, yn arbennig mewn cyfnod mor wleidyddol ansefydlog â hwn. Ond bellach, a ninnau'n gwybod y cynhelir Etholiad Cyffredinol ar Ragfyr 12fed, edrychwn ymlaen unwaith eto at ethol ein cynrychiolwyr i San Steffan. Bydd gwneud hynny mor agos i'r Nadolig yn brofiad newydd i bawb ohonom gan na chafwyd Etholiad Cyffredinol yng ngwledydd Prydain ym mis Rhagfyr ers 1923.

A fydd cynnal yr Etholiad o fewn pythefnos i'r Nadolig yn effeithio ar ganlyniad y bleidlais, ac a fydd prysurdeb paratoadau'r Ŵyl yn golygu na fydd gan lawer o bobl ddiddordeb ynddo? Amser a ddengys. Ond erbyn y Nadolig, bydd aelodau'r Senedd newydd, er gwell neu er gwaeth, wedi eu hethol, a chawn ninnau ymroi yn llawen i ddathlu dyfodiad Mab Duw i'r byd. Ac wrth wneud hynny, manteisiwn ar y cyfle arbennig a fydd gennym eleni, yn sgil yr Etholiad, i dynnu sylw at un o'r teitlau a roddwyd i'r Meseia yn y Beibl.

Un o broffwydoliaethau mwyaf yr Hen Destament oedd, 'Dyma fy ngwas, yr wyf yn ei gynnal, f'etholedig, yr wyf yn ymhyfrydu ynddo' (Eseia 42:1). Mae'r gwawd a ddioddefodd Iesu wrth iddo ddioddef ar Galfaria yn dangos bod pobl yn deall mai cyfeiriad at y Meseia oedd y geiriau hyn: 'Fe achubodd eraill; achubed ei hun, os ef yw Meseia Duw, yr Etholedig' (Luc 23:35). Y Nadolig hwn, cyhoeddwn mai'r baban a anwyd ym Methlehem yw Etholedig Duw, yr un y mae Duw wedi ei ethol i fod yn was iddo Ef ei hun, yn gyfryngwr rhyngddo Ef a'i bobl, ac yn waredwr i'r bobl hynny. Cyhoeddwn yn hyderus fod gennym yn Iesu Grist gynrychiolydd etholedig sydd wedi ein gwasanaethu a'n caru i'r eithaf trwy farw drosom. Y mae'n gynrychiolydd perffaith, na ellir ei well, am mai Duw a'i hetholodd.

# Capel Ni
## yn Eglwys Iesu

## Tabernacl, Llanfyllin

**DRWS AGORED**
Yn dilyn seibiant dros yr haf, braf oedd cael cyfarfod eto ddechrau Medi. Wedi croeso cynnes gan y llywydd, Rhoswen Charles, cawsom sgwrs gan ŵr lleol, Alwyn Williams, ar y testun 'Atgofion Martha ac Emrys' – sef nain a thaid Alwyn. Bu'n sôn am yr amser caled a gafodd ei nain adeg y rhyfel. Wedi colli dau blentyn i glefyd y difftheria, loes oedd clywed bod Emrys ei mab 'ar goll' yn y rhyfel. Ond daeth newydd da ymhen misoedd pan ddaeth llythyr i ddweud ei fod yn fyw. Cawsom ddarlun byw o'r modd yr oedd y merched gartref yn dioddef tra roedd y meibion ar faes y gad.

**GŴYL DDIOLCHGARWCH**
Cynhaliwyd Swper y Cynhaeaf yn Festri'r Tabernacl a chafwyd gwledd o swper wedi'i baratoi gan aelodau a chyfeillion Drws Agored. Yna mwynhawyd eitemau cerddorol gan Nia a Lowri (merched Pantglas, Llansilin) gyda'u mam yn cyfeilio iddynt. Dechrau ardderchog i'r ŵyl. Y bore Sul canlynol cynhaliwyd Oedfa'r Ifanc, oedd wedi ei threfnu gan Mrs Eleri Llwyd. Cymerwyd rhan gan Eos Jones, Erin Thomlinson, Celyn Roberts, Soffia Jones ac Ioan Jones. Miss Jane Peate o Langadfan oedd yn rhoi anerchiad a thrwy dynnu ein sylw at ambell ffaith ryfeddol fe wnaeth inni sylweddoli mor anhygoel yw'r byd a'r cread. Ar y nos Lun cafwyd oedfa ddiolchgarwch yn y Tabernacl a'r pregethwr gwadd oedd y Parchg Euron Hughes, Llanuwchllyn.

Braf oedd cael ymuno hefyd â chynulleidfa Soar, Cwmnantyfyllon yn eu gwasanaeth diolchgarwch. Roedd y capel wedi ei addurno'n hardd a daeth cynulleidfa deilwng i addoli, gyda Mr Tom Ellis yn arwain yr oedfa.

**LLONGYFARCH**
Llongyfarchiadau i Eos Jones, Bryncoch, ar ennill cystadleuaeth creu logo i'r Ŵyl Gerdd Dant a fydd yn cael ei chynnal yn Llanfyllin yn Nhachwedd 2020. Mae Eos wedi cael llwyddiant yn Eisteddfod Trefeglwys yn ddiweddar hefyd, gan ennill gwobr hyfryd am fod yr unawdydd gorau a hefyd ddod yn ail ar unawd piano.

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Gareth a Mary Lewis, Hafod Lon, ar ddathlu eu priodas aur.

Dymuniadau gorau i Mrs Eirwen Jenkins, sydd wedi dathlu ei phen-blwydd yn 90 oed. Ein cofion cynnes atoch a phob dymuniad da am adferiad iechyd llwyr a buan.

**CYDYMDEIMLO**
Mae ein cydymdeimlad gyda Rhian, Wyn, Emma a Rhys, Stud Farm, yn eu profedigaeth o golli mam a nain annwyl iawn, sef Mrs Evans, Glascoed.

**GWELLHAD BUAN**
Dymuniadau gorau am adferiad buan i Mrs Margaret Blainey, sydd wedi cael clun newydd. Mae ei ffrindiau yn Ffordd Derlwyn yn falch o'i gweld yn ôl yn eu plith!

**CYNGERDD ARBENNIG**
Daeth cynulleidfa gref i gapel y Tabernacl ganol Medi ar gyfer gig Siân James a Lleuwen Steffan. Noson oedd hon i godi arian at Ŵyl Gerdd Dant Bro Nansi 2020. Noddwyd y noson gan Ardal Powys yr Eglwys Fethodistaidd a gwnaed y trefniadau gan Fenter Maldwyn ynghyd â'r Pwyllgor Gwaith. Dechrau llwyddiannus i baratoadau'r Ŵyl.
**GOHEBYDD .** ALWENA FRANCIS

## Salem, Rhyd y Foel

**MERCHED METHODISTAIDD**
Cynhaliwyd cyfarfod yr Hydref yn Salem ar ddydd Sadwrn 12fed Hydref. Eleni mae Gweithredu Dros Blant yn dathlu 150 mlynedd ers ei sefydlu a chawsom gacen pen-blwydd yn rhoddedig gan Miss Kathleen Williams.

**COFION**
Anfonwn ein dymuniadau gorau am wellhad buan at Mr Dyfed Roberts, Tyddyn Ucha, sydd wedi cael llawdriniaeth yn Ysbyty Glan Clwyd.

**PROFEDIGAETH**
Daeth profedigaeth i ran Miss Kathleen Williams yn ystod mis Hydref ym marwolaeth aelod o'i theulu sef Mrs Debbie Jones, Rock Ferry. Estynnwn ein cydymdeimlad â Kathleen a'r teulu oll yn eu colled.

**DIOLCHGARWCH**
Dydd Sul Hydref 20fed cynhaliwyd ein gwasanaeth o ddiolch am y cynhaeaf, sef gwasanaeth teuluol arbennig iawn gyda 45 yn bresennol - 11 o blant ac ieuenctid. Mrs Catherine Blythin oedd



yn arwain yr oedfa a'r mamau - Rowena, Angharad a Bethan - yn cymryd rhan. Fe wnaeth pob un ddehongli'r gair Diolchgarwch yn afaelgar iawn. Anna oedd yn cyfeilio ar yr organ a'r piano. Diolch i Ifan, Cadi, Gwil, Tirion, Mali, Amelia, Mari, Cadi, Matthew, Mali ac Ina fach am eu cyfraniad a'u rhoddion o flodau, ffrwythau a llysiau a osodwyd ar fwrdd y Cymun. Diolch arbennig i Menna ac Esther am addurno'r capel gyda chynnyrch y cynhaeaf; edmygwn eu dawn i harddu'r capel ar achlysuron arbennig.
**GOHEBYDD .** SIÂN PRICE





## Ebeneser, Eglwysbach

**LLONGYFARCH**
Llongyfarchiadau i Osian Pyrs, Bryn Hafod, ar ennill B.Sc. mewn Amaethyddiaeth o Brifysgol Aberystwyth, a chroeso nôl o Seland Newydd. Llongyfarchiadau yn ogystal i Siriol Hughes, Tu Hwnt i'r Fawnog, ar gael ei phenodi i swydd Dylunydd Cynnyrch gyda'r Bathdy Brenhinol yn Llantrisant. Pob hwyl i ti yn dy swydd newydd.

**DIOLCHGARWCH**
Eleni cynhaliwyd ein Cyfarfod Diolchgarwch dan arweiniad y Parchg Philip Barnett. Cawsom gwmni aelodau Capel Bethania a hefyd ein gweinidog newydd y Parchg Trevor Hoggard a'i wraig Cathie. Diolch i Deryl am y trefniant blodau ac i Diana am ei gwaith wrth yr organ. Da gweld y festri yn llawn. Rydym yn falch iawn fod Mrs Catherine Barnett wedi gwella mor dda.
**GOHEBYDD .** CHARLES CRAPPER

## Ardal Bathafarn

**DATHLU**
Llongyfarchiadau calonnog i Rob ac Edwina Stephen ar ddod yn daid a nain am y tro cyntaf. Ganwyd Ernest i Edward a Gaby yn Llundain. Pob bendith a hapusrwydd iddynt i'r dyfodol. Yr un yw ein llongyfarchiadau a'n dymuniadau da i Glyn a Gladwen Jones, Gwyddelwern, ar ddod yn hen daid a nain unwaith eto. Pob dymuniad da i Owain, mab y Parchg Marc a Margaret Morgan, a Lucy ar achlysur hapus eu priodas.

**CYDYMDEIMLO**
Estynnwn ein cydymdeimlad diffuant at Marian Thomas, Corwen, o golli brawd annwyl sef Dwyfor Jones, yntau wedi bod yn hynod o weithgar yn ardal Cwm Main.

Meddyliwn yn ogystal am deulu'r ddiweddar Gwenfyl Pugh, hithau yn ferch i'r diweddar Margaret a Maelor Roberts a fu'n ffyddlon iawn yng nghapel Bathafarn. Bu tad yng nghyfraith Gwenfyl sef y Parchg Baldwin Pugh yn Arolygwr ar hen Gylchdaith Rhuthun yn y 1950au.

Yr un yw ein cydymdeimlad at deulu'r ddiweddar Morfydd Edwards, Clocaenog. Bu Morfydd a'r teulu yn hynod o ffyddlon yn hen gapel Wesle Clocaenog am flynyddoedd lawer.

Meddyliwn amdanoch yn eich hiraeth am anwyliaid.

**CYMDEITHAS BATHAFARN**
Cafwyd noson arbennig i ddechrau ein tymor, pan fwynhawyd swper gwerth chweil wedi ei drefnu'n ofalus gan Lowri. Braf oedd cael cwmni Gwyn Atkinson a'i fab – Gwyn wedi gwella'n dda ar ôl treulio wythnosau yn yr ysbyty. Braf hefyd oedd cael y Parchg Martin Evans-Jones yn ein plith. Diolch i bawb am eu cyfraniadau. Bu'n noson werth chweil y mis canlynol hefyd, gyda'r thema 'pawb â'i hoff drysor'.

**DATHLU**


Bydd capel Bathafarn, capel coffa Edward Jones, yn dathlu cant a hanner o flynyddoedd eleni. Edrychwn ymlaen at ddathlu yn ystod ein Gwasanaeth Nadolig brynhawn Sul y 15fed o Ragfyr ac mae croeso cynnes i bawb ymuno â ni. Gobeithiwn yn arbennig y cawn weld rhai sydd wedi bod â chysylltiad â hen Gylchdaith Rhuthun sef capeli Graigfechan, Clocaenog, Hirwaen a Llanelidan gynt. Yn dilyn yr oedfa bydd paned yn y festri a chyfle i hel atgofion wrth edrych ar luniau. Gan mai thema Synod Cymru eleni yw "estyn allan i'r gymuned", gall hyn fod yn un cyfle i wneud hynny.

**DYMUNIADAU GORAU**
Dymunwn yn dda i Helen Hughes, sy'n derbyn triniaeth ym Manceinion. Ein cofion anwylaf ati ac at Ifor Parry, Efa Rogers-Jones, Gretta Davies, Margaret Hughes, Lorna Wynne, Audrey Jones, Brenda a Rhys Roberts, hefyd y Parchg Tudur Rowlands.

**GWASANAETHAU**
Yn ystod Medi a Hydref, bu Elizabeth yn cynnal oedfa a Chymun. Arweiniwyd oedfaon gan y Parchg Jennie Hurd a'r Parchg Dilys Jones, hefyd Mr Richard Jones, Pontfadog a'r Parchg Brian Evans, Yr Wyddgrug. Hyfryd oedd cael dod at ein gilydd i Wasanaeth Undebol Wythnos Un Byd yn Eglwys Llanfwrog. Cawsom neges rymus gan y Parchg Stuart Evans, yn pwysleisio pwysigrwydd gofalu am ein byd er mwyn y cenedlaethau a ddaw.

**CYMWYNASAU**
Diolch i bawb sy'n helpu ym mhob ffordd yn ein capeli yn Ardal Bathafarn. Diolch i Rhian am gyfeilio ac i Rhodri am lywyddu; iddynt hwy ill dau ac i Edwina am lanhau addoldy Bathafarn; i Edwina am drefnu blodau mor hyfryd. Rydym yn ffodus iawn fod pawb mor barod ei gymwynas ac mor ffyddlon.
**GOHEBYDD .** ELIZABETH JONES

## Ebeneser, Dolgellau

**TRIP Y CAPEL**
Ar ddydd Sadwrn 14 Medi fe aeth 25 o aelodau a ffrindiau Ebeneser ar y bws o Ddolgellau i Gaernarfon. Treuliwyd dros dair awr yno ac wedyn, ar ôl cinio, dyna ddychwelyd i Borthmadog ar drên stêm Rheilffordd Eryri, yna dal y bws adref. Roedd yr haul yn tywynnu a golygfeydd bendigedig i'w gweld ar y daith, a phawb wedi mwynhau.

**CROESO**
Braf yw gweld Marian a'i merch Catherine, a'r plant bach Nesta ac Efin, yn ymuno â ni yn yr oedfaon ar fore Sul. Croeso cynnes iddynt.

**FFARWELIO**
Rydym wedi mwynhau cwmni Eleanor, merch Hugh a Marion Humphreys, yn yr oedfaon am rai misoedd ond erbyn hyn mae wedi dychwelyd i Awstralia.
**GOHEBYDD .** BERYL NORGROVE



# O'R LLAN

## *gan y Canon Idris Thomas*

"WASTOD AR Y TU FAS"
Mae'r geiriau hyn yn adnabyddus iawn gan mai dyna deitl un o ganeuon enwog y band pync/pop-pŵer poblogaidd o Gwm Tawe, y "Trwynau Coch". Ffurfiwyd y band yn 1977 gan griw o ffrindiau yn Ysgol Gyfun Ystalyfera. Ar ein haelwyd ni mae'r ymadrodd "tu fas" yn ogystal â'r "tu allan" gogleddol i'w glywed yn aml gan fod y wraig yn dod o Sir Gâr.

Mae'r geiriau "tu fas" yn rhan o eirfa y gwir Nadolig oherwydd ganed Iesu tu fas, yn union fel y bu farw tu fas. Ar y Nadolig cyntaf caeodd drws y llety ym Methlehem yn glep ar yr un oedd ar fin cael ei eni, yn union fel y bu i gatiau dinas arall, Jerwsalem, gau ar yr un oedd ar fin marw ar y Groglith. Dathlwn bob Nadolig felly eni Ceidwad a oedd yn un o bobl yr ymylon. Yn yr Efengylau nid yw Iesu i'w ganfod "y tu fewn" lle mae'n ddiogel a chyfforddus. Roedd y rhai oedd yn mynd ato ym Mhalestina yn gorfod "mynd allan" ato. Do, bu rhai yn rhoi lloches iddo am gyfnod byr ond nid oedd gan yr un "a drigodd yn ein plith" le y gallai ei wneud yn gartref parhaol iddo'i hun. Nid oedd gan Fab y Dyn unman i roi ei ben i lawr oherwydd yr oedd yn wastad y tu fas.

Mae'r tensiwn rhwng y "tu mewn" a'r "tu allan" yn amlwg iawn yn hanes geni'r Baban Iesu. Nid oedd lle i mewn yng nghynhesrwydd y llety ac yr oedd yn oer y tu allan yn Ninas Dafydd mewn mwy nag un ystyr. Mae ein carolau yn frith o gyfeiriadau at y naws oeraidd. Yn y garol "Ar noson fel heno" dywed T.Llew Jones mewn un llinell fod y "Gaeaf yn y gwynt" ac yn un o'i garolau yntau sonia Rhys Nicholas fod "yr awel neithiwr yn finiog oer". "Mewn stabal rynllyd wele Faban Mair," medd Amy Parry Williams hithau ac mae'r garol boblogaidd "Ganol Gaeaf Noethlwm" yn cyfleu'r naws oeraidd yn afaelgar iawn.

Hoffaf hefyd linell anfarwol y bardd a'r offeiriad R.S.Thomas pan ddywed am naws geni'r baban –"Love knocks with such frosted fingers". Byddaf fel offeiriad yn ystod y Weddi Gysegriad yn y gwasanaeth Cymun yn torri'r bara yn ei hanner ("yr ydym yn torri'r bara hwn") ac mewn cerdd Nadolig cyffelyba R.S.Thomas sŵn y torri bara hwn i sŵn traed yn torri haenen denau o rew ar noson y Geni.

Pobol o'r tu fas a ffeindiodd eu ffordd ato. Cartref y bugeiliaid oedd y bryniau ac isel oedd eu statws yn y gymdeithas. O'r anialwch y daeth y Doethion, hwythau hefyd yn mynd allan i'r nos a dilyn y seren i feudy'r ych. Y Nadolig hwn eto mae gwir angen clywed neges yr Ŵyl "oddi allan" mewn byd a chymdeithas oer, peryglus a thywyll sy'n llawn tensiwn, argyfyngau, erchyllterau, anoddefgarwch ac anwybodaeth. Nadolig dedwydd i bawb ohonoch. Crynhoir y cyfan yn englyn "Y Golud" gan y Prifardd Ieuan Wyn:-

Gwelodd y gwâr fugeiliaid – wyneb mab
Ymysg creaduriaid;
Y Mab pur yn llety'r llaid,
A'r dwyfol gyda'r defaid.


Cerflun yr Iesu Digartref

## YR ADFENT

Yr Adfent hwn rydym yn yr Eglwys Fethodistaidd yn rhoi sylw arbennig i sefyllfa pobl ddigartref a beth y gallwn ni ei wneud i helpu. Mae llawer o wybodaeth a'r holl ddeunyddiau ar gyfer cynnal gwasanaeth Offrwm yr Adfent i'w cael yn Gymraeg yn https://www.methodist.org.uk/adventoffering/

## Gweddi

Arglwydd Iesu Grist, fe'th geisiwn di ar ein taith drwy'r Adfent. Arglwydd Iesu, Fara'r Bywyd, gweddïwn dros y newynog. Arglwydd Iesu, Ddŵr Bywiol, gweddïwn dros y sychedig. Dysg ni, beth bynnag a wnawn i eraill, mai i Ti yr ydym yn ei wneud.

Gweddi gan Hazel Parsons ac Anne Browse ar gyfer gwasanaeth Offrwm Adfent yr Eglwys Fethodistaidd, Digartrefedd a Lletygarwch, hawlfraint Ymddiriedolwyr dros Ddibenion yr Eglwys Fethodistaidd, 2019.

## MEDAL GEE

Llongyfarchiadau mawr i Mr Cadfan Edwards, Carmel, Moelfre, Dyffryn Clwyd, ar dderbyn Medal Gee am ffyddlondeb i'r Ysgol Sul. Llongyfarchiadau cynnes iawn hefyd i bawb a anrhydeddwyd â'r Fedal eleni.



cartŵn








# O'r Pen Yma gan Angharad Tomos

Bûm yn gwrando ar drafodaeth ar 'Bwrw Golwg' dro yn ôl yn trafod canu emynau a phoblogrwydd 'Caniadaeth y Cysegr'. Mae'n wir fod gan y Cymry berthynas agos efo emynau. Nes clywed y drafodaeth, wnes i ddim meddwl o'r blaen fod canu emynau yn golygu fod rhan i'r gynulleidfa i'w chwarae yn yr oedfa, heblaw eistedd a gwrando. Mewn rhai traddodiadau, gwrando ar gôr eglwysig a wnânt, neu ar offeiriad yn llafarganu. Ond yn y traddodiad anghydffurfiol, mae croeso i bawb gymryd rhan.

Dwi ddigon hen i gofio'r cymanfaoedd canu mawr, fel rheol ym Methesda pan awn yno efo Nain a Taid. Dwi'n cofio llond capel, gan gynnwys y galeri yn canu nerth eu pennau yn y pedwar llais. Byddai arweinydd y gymanfa yn ein stopio, ein ceryddu weithiau, a gofyn inni ail-ganu gan ddwys ystyried y geiriau. Rhaid i mi ddeud fod y ddisgyblaeth hon wedi cael argraff arnaf, ac mae emynau wedi dod yn rhan o'm hanfod.

Ar y rhaglen, aeth John Roberts yn ei flaen i holi beth oedd yr ymlyniad hwn gan bobl at emynau, ac a oes elfen o hiraeth ynddo am oes a fu. Mae hyn i'w ganfod yn un o ganeuon Lleuwen, pan mae'n sôn am 'gofio'r pedwar llais' yn y gân 'Cofia fi at Iesu Grist'.

Y newyddion da ydi nad oes raid hiraethu. Mae'r sefydliadau hyn yn dal i fod. Efallai nad yw'r galeri yn llawn, ond mae pobl yn dal i ddod at ei gilydd bob Sul mewn man addoliad, mae plant yn dal i fynd i'r Ysgol Sul. Dywed rhai pobl nad ydynt wedi bod mewn oedfa ers i'w capel gau, a fyddai mynd i gapel arall 'ddim 'run fath'.

I mi, dyna ydi sentiment. Ond os oes hiraeth gwirioneddol am glywed yr hen emynau, os oes rhywbeth yn ein calonnau sy'n ein tynnu at Y Gair, wel mentrwn lawr y lôn neu i'r pentref nesaf i'r capel agosaf. Dydi o ddim yn hawdd cerdded i gapel dieithr, ond mae'n werth rhoi cynnig arni. A fesul Sul, down i adnabod y bobl eraill sy'n mynychu, fesul Sul mi ddaw yn haws, fesul Sul cawn ganu yr hen emynau a dysgu rhai newydd. Down i gysylltiad newydd efo'r calendar eglwysig, a theimlo ein bod yn rhan o 'gymdeithas'.

Mewn deng mlynedd, mae'n ddigon posib y bydd pob capel wedi cau ac mai dim ond yn Sain Ffagan fydd y fath adeilad yn bod. Bydd emynau i'w clywed ar raglenni radio a theledu, ond bydd pob cymdeithas capel wedi dod i ben. Bydd gwylio pobl yn canu emynau ar y teledu fel gwylio côr eglwysig, fyddwn ni ddim yn rhan ohono. Bryd hynny, cawn dorri ein calonnau go iawn, achos bydd rhywbeth byw wedi marw, a bydd hi'n rhy hwyr.

Ond does dim rhaid iddi fod felly. Mae ambell ddrws yn dal ar agor. Falle na fydd y capel newydd 'cweit yr un fath', ond beth am fod yn ddewr a mentro? Gadawn sentiment i fod, a dod yn rhan o fywyd capel fyddai yn wirioneddol falch o'n gweld.

SUT MAE
GWEITHREDU DROS BLANT
YN GWEITHIO

Hoffem ddiolch i'r canlynol am eu rhoddion tuag at Weithredu dros Blant, sydd wedi dod i law ers rhifyn diwethaf y *Gwyliedydd*:

Jerwsalem, Wrecsam £50.00

Seion, Pwllheli £600.00

Anfonwyd cyfanswm o £650.00 yn enw Synod Cymru. Gyda diolch am bob cyfraniad.

Braint o'r mwyaf i'r ddau ohonom oedd cael gwahoddiad i'r gwasanaeth o ddiolchgarwch i ddathlu 150 o flynyddoedd ers i *Gweithredu dros Blant* ddechrau cynorthwyo plant, a hynny yn y crypt yng Nghadeirlan St Paul, Llundain ar nos Fercher 23 Hydref 2019. Cyfle oedd hwn i gofio a diolch am sut y gwnaeth gweinidog gyda'r Eglwys Fethodistaidd sefydlu'r cartref cyntaf i blant, a diolch am y cysylltiad sy'n parhau i fod rhwng yr elusen a'r eglwys. Cawsom gyfle i gymdeithasu a dathlu ac un o uchafbwyntiau'r noson oedd cael gwrando ar gôr o ofalwyr ifanc o Rhondda Cynon Taf yn canu caneuon roeddynt wedi eu hysgrifennu yn seiliedig ar eu profiadau fel gofalwyr. Y diwrnod canlynol cynhaliwyd cynhadledd flynyddol Cynrychiolwyr y Taleithiau.

***Ymgyrch Casglu Anrhegion Nadolig.*** Diolch i'r eglwysi a'r unigolion sydd wedi cyfrannu i'r ymgyrch. Mae'r prosiectau i gyd yn gwerthfawrogi'ch haelioni.

Parchg. Marc a Mrs Margaret Morgan

Llety'r Bugail, 1 Cwrt Eden, Gwersyllt, Wrecsam, LL11 4FF

- 01978 756717
- cwrteden@gmail.com

★ 'Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb oddi wrth Robin a Ffion' ★

## MERCHED METHODISTAIDD YNG NGWLEDYDD PRYDAIN

Ar ddiwrnod hyfryd o Hydref, daeth cynulliad da ynghyd, o wahanol Ardaloedd, i Ryd y Foel. Dyma'r tro cyntaf i rai ohonom fod yno a chawsom ein cyfareddu gan y golygfeydd godidog yn y rhan hon o Gymru. Yn dilyn gair o groeso gan Elizabeth, y llywydd, cynhaliwyd y defosiwn dan ofal aelodau Salem, Rhyd y Foel gyda Catherine Blythin yn cyfeilio.

Ein siaradwraig oedd Nikki Booth, Prestatyn, a olrheiniodd ddechreuadau *Gweithredu dros Blant* yn ôl yn 1869, pan ddaeth y Parchedig Thomas Bowman Stephenson, gweinidog gyda'r Eglwys Fethodistaidd, o hyd i griw o blant yn byw o dan bontydd gorsaf Waterloo yn Llundain. Teimlodd i'r byw wrth weld golygfa mor drist ac fe agorodd gartref bach teuluol mewn stabal gerllaw. Rhoddodd i'r plant hyn gartref diogel a chariadus, addysg a gobaith at y dyfodol. Yn wir, ei rodd iddynt oedd plentyndod. Mae penderfyniad a thosturi'r Parchg Thomas Stephenson yn parhau i'n hysbrydoli hyd heddiw.

Yn dilyn y cyfarfod, mwynhawyd lluniaeth a chyfle i gymdeithasu. Diolch am y gacen arbennig i ddathlu'r 150 mlwyddiant, a gafodd ei thorri gan aelod hynaf annwyl Salem. Braf iawn oedd cael cwmni'r Parchg Jennie Hurd a hefyd Mrs Cathie Hoggard. Gobeithio y byddwch yn gartrefol iawn yn ein plith, Cathie.
*Elizabeth Jones*

# Capel Ni yn Eglwys Iesu

## Eglwys Unedig Colwyn

**GRŴP CRISTNOGOL CYMORTH CANSER ARDAL CONWY**
Diolch i Owen a Wendy am eu gwaith caled yn cefnogi'r achos teilwng hwn ac i bawb a helpodd i sicrhau llwyddiant y bore coffi diweddar.

**CYFARFOD GWEDDI UNDEBOL**
Diolch i Ken am ein cynrychioli yn y Cyfarfod a gynhaliwyd yn Ebeneser ar Hydref 7fed.

**TAITH**
Da gennym ddeall fod Arfon wedi mwynhau taith i'r Wladfa – edrychwn ymlaen at glywed yr hanes i gyd.

**DYMUNIADAU GORAU**
Dymunwn wellhad buan i Mrs Eileen Davies, nad yw wedi gallu bod gyda hi yn ddiweddar, ac i bawb arall nad yw mewn llawn iechyd.

**PEN-BLWYDD**
Dymunwn ben-blwydd hapus iawn i Mrs Dora Jones a fydd yn 103 mlwydd oed ar Ragfyr 30.



**CAROLAU**
Cynhelir y Cyfarfod Carolau Elusennol Blynyddol yn Horeb ar nos Fercher Rhagfyr 4 am 7 o'r gloch.
**GOHEBYDD .** RHIANNON JONES

## Ebeneser, Trefor, Môn

**LLONGYFARCHIADAU**
Llongyfarchiadau i'r Dr Edward Thomas Jones sydd wedi derbyn Ysgoloriaeth Ffermio Nuffield 2020. Mae Edward yn ddarlithydd mewn economeg ym Mhrifysgol Bangor a chlywir ei lais yn aml ar y radio a'r teledu yn trafod pynciau yn ymwneud â'r economi. Dymunwn yn dda iddo yn ystod y flwyddyn nesaf.
**GOHEBYDD .** CARYS THOMAS

## Bethel, Amlwch

**DIOLCHGARWCH**
Cafwyd gwasanaeth Diolchgarwch effeithiol iawn, dan arweiniad brodor o Amlwch sef Walter Glyn Davies. Daeth cynulleidfa deilwng iawn a chafwyd canu grymus. Mwynhawyd te a sgwrs i ddilyn.

Edrychwn ymlaen at y Nadolig pan fyddwn yn uno ag Eglwys Fethodistaidd Saesneg Amlwch mewn Gwasanaeth Carolau Dwyieithog a Gwasanaeth Cymun ar Noswyl Nadolig.
**GOHEBYDD .** LEN THOMAS

## Pendref, Dinbych

**OEDFAON**
Cynhaliwyd oedfaon bendithiol yn ystod Medi dan ofal Elizabeth Jones, y Parchg Ddr Trevor Hoggard, Enid Davies, y Parchg Ddr Jennie Hurd a David Barker Jones. Yn ystod Hydref gwasanaethwyd gan Enid Davies a chynhaliwyd cyfarfodydd gweddi – diolch i'r rhai a gymerodd ran yn y cyfarfodydd hynny.

**CROESAWU AROLYGYDD NEWYDD**
Dydd Sadwrn Medi'r 7fed cynhaliwyd cyfarfod Cylchdaith Cymru ym Mhendref ac yna yn y prynhawn bu oedfa arbennig, fendithiol iawn i groesawu'r Parchedig Ddr Trevor Hoggard a'i wraig Cathie sydd wedi dod i Gylchdaith a Synod Cymru ar ôl bod yn gwasanaethu yn Seland Newydd. Mae'r ddau wrthi'n brysur yn dysgu Cymraeg. Pob dymuniad da a boed bendith arnynt yn eu gwaith newydd.

**OEDFA GYNTAF**
Bore dydd Sul Medi'r 8fed cawsom y fraint o groesawu'r Parchedig Trevor Hoggard i Bendref. Hon oedd yr oedfa gyntaf iddo ei harwain a phregethu ynddi yng Nghylchdaith Cymru a gwnaeth hyn trwy gyfrwng y Gymraeg.





**BEDYDD**
Bore dydd Sul Medi 22ain bedyddiwyd Tomos Miguel, mab Lowri a Jorge Fernandes. Roedd yr oedfa dan ofal y Parchedig Ddr Jennie Hurd. Braf oedd gweld nifer o deuluoedd ifanc yn bresennol a chael croesawu teulu Lowri a theulu Jorge oedd wedi dod drosodd o Bortiwgal.

**DYMUNIADAU GORAU**
Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau da am wellhad buan i'n gweinidog y Parchedig Tudur Rowlands.

**CYDYMDEIMLO**
Cydymdeimlwn yn ddwys iawn â Rhiannon Rogers ar golli ei merch, Lowri. Mae ein meddyliau gyda'r teulu oll.

Cafwyd newyddion trist hefyd ddiwedd Hydref pan fu farw un o'n haelodau sef Geraint Roberts. Brodor o Sir Gaernarfon oedd Geraint. Bu'n aelod yng Nghapel Ty'n Lôn, Llandwrog ac yn arweinydd y gân yno. Ymaelododd Geraint a'r wraig Beti ym Mhendref yn 1963 ar ôl symud i Ddinbych. Bu'n flaenor y bobl ifanc, yn arweinydd y gân ac yn flaenor ac aelod gweithgar dros y blynyddoedd. Cydymdeimlwn fel Eglwys yn gywir iawn â Beti, Siân, Dewi a Gareth yn eu profedigaeth.

**DRYSAU AGORED**
Roedd Pendref ar agor yn ystod "Penwythnos Drysau'n Agored yn Ninbych" ar Fedi'r 28ain a'r 29ain. Croesawyd 101 o ymwelwyr o bell ac agos dros y ddau ddiwrnod. Roedd y sylwadau a adawyd yn y llyfr ymwelwyr yn hynod o garedig a chalonogol. Diolch i'r aelodau a fu ar ddyletswydd yn croesawu pawb dros y ddau ddiwrnod.

**CYMDEITHAS CAPEL**
Cynhaliodd aelodau *Capel* sef cymdeithas treftadaeth capeli Cymru eu cyfarfod ym Mhendref ar Hydref 12fed. Braf oedd cael croesawu'r cynrychiolwyr o bob rhan o Gymru. Rhoddwyd sgwrs iddynt ar gychwyn yr achos ac adeiladu'r "Capel Wesleaidd Cymreig Cyntaf yn y Byd" yma ym Mhendref, gan swyddog treftadaeth y capel, Medwyn Jones. Aeth y grŵp hefyd ar daith o amgylch addoldai eraill Dinbych.

**TRAFOD Y FFORDD YMLAEN**
Dydd Iau Medi 19eg cynhaliwyd cyfarfod rhwng aelodau'r capel a'r Parchedig Jennie Hurd a Delyth Davies i drafod arolygiad cylchdaith Cymru a'r ffordd ymlaen i ni yma ym Mhendref dros y blynyddoedd nesaf.

**DIGWYDDIADAU YM MIS TACHWEDD**
Ar 4 Tachwedd cynhelir ein cyfarfod blynyddol ac yna ar 9 Tachwedd cynhelir ein cinio blynyddol ym Melin Brwcws. Ar 23 Tachwedd yng Nghanolfan Eirianfa, cynhelir Ffair Hydref rhwng 10 ac 11 y bore. Cynhelir Fforwm Addoldai Hanesyddol Cymru ym Mhendref ar 26 Tachwedd. Trefnir y fforwm gan Cadw a braint yw cael ein dewis fel lleoliad iddo.
**GOHEBYDD .** MARY JONES

## Saron, Bethel, Arfon

**Y PLANT**
Llawenydd ydyw cael gwrando ar ein plant bach yn dod ymlaen i ddweud eu hadnod yn yr oedfa. Mae'r pedwar ohonynt yn dod yn ffyddlon ar y bws yng nghwmni eu mam bob Sul a beth bynnag fyddo'r tywydd. Diolch arbennig i'w mam, Gwenan, am eu harwain.

**GWELLHAD BUAN**
Mae llawer o'n haelodau ffyddlon a'u teuluoedd wedi bod yn dioddef salwch yn ddiweddar, rhai mewn ysbytai ac eraill yn eu cartrefi. Dymunwn wellhad llwyr a buan a chofion cynnes at bob un ohonoch.
**GOHEBYDD .** RJ

## Ebeneser, Treuddyn

**TE PRYNHAWN**
Roedd ein Te Prynhawn blynyddol a gynhaliwyd yn Hafan Deg ar 7 Medi yn llwyddiannus iawn. Diolch yn fawr iawn i bawb a ddaeth i'n cefnogi.

**CYDYMDEIMLO**
Cydymdeimlwn yn gywir iawn â theuluoedd Mrs Carys Huxley a Mrs Ceridwen Orton sydd wedi colli eu hewythr, Mr Alun Griffiths, Maes Llewelyn, yn ddiweddar. Hefyd, anfonwn ein cydymdeimlad cywiraf â Mrs Margaret Roberts, sydd wedi colli modryb, sef Mrs Nora Edwards, Yr Wyddgrug.



**CAROLAU**
Eto eleni, cynhaliwn ein gwasanaeth Carolau dwyieithog ar brynhawn Sul, Rhagfyr 22ain am 2.30. Croesawn bawb yn gynnes iawn atom i'r gwasanaeth arbennig yma dan arweiniad ein gweinidog, y Parchg Eirlys Gruffydd Evans, gyda lluniaeth ysgafn i ddilyn.
**GOHEBYDD .** GLENYS DAVIES

## Shiloh, Tregarth

**PROFEDIGAETH**
Gyda thristwch y clywsom am farwolaeth ein haelod hynaf, Mrs Edith Hughes, a hithau yn 99 mlwydd oed. Bu Edith yn aelod ffyddlon iawn, ynghyd â'i phriod y diweddar Joseph Andrew, gan wasanaethu fel ysgrifennydd a thrysorydd y capel am flynyddoedd. Roedd gan ei theulu gysylltiad â Shiloh ers pum cenhedlaeth. Cydymdeimlwn yn ddwys â'r hogiau, Arwel a Gwyn a'u teuluoedd a theulu ei diweddar fab Richard.

**GWELLHAD BUAN**
Dymunwn wellhad llwyr a buan i ddau aelod sydd ar hyn o bryd yn yr ysbyty, sef Dennis Vaughan Griffiths a Wynne Roberts.

**DRWS AGORED**
Cofiwch alw i mewn ar fore Gwener rhwng 10 a 12 o'r gloch am baned, sgwrs



a chwmni. Croeso cynnes i bawb. Trwy garedigrwydd y rhai sydd yn dod, fe gasglwyd arian yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a gyfrannwyd i gefnogi Ymchwil MS; Cronfa Madagascar Undeb yr Annibynwyr; Apêl Cymorth Cristnogol yn dilyn seiclon Idai; Cronfa i gefnogi Morgan, bachgen o'r pentref sydd yn derbyn triniaeth yn Ysbyty Alder Hey; a Chaffi Deiniol sydd yn paratoi bwyd a chysur i'r digartref ym Mangor. Diolch o galon i bawb am eu cefnogaeth.

**DIOLCHGARWCH**
Nos Sul, 13 Hydref cynhaliwyd Oedfa Deulu yng nghwmni ieuenctid Shiloh. Cymerwyd rhan gan Gwenno a Iestyn, Myfi a Nel, Aziliz, Mali a Nanw, Anwen Griffiths, Elin Sanderson, Val Ellis Jones, Christine Morris Jones a Ffion Kervegant. Daeth y Parchedig Eric Jones o Fangor i roi sgwrs yn ymwneud â'r cynhaeaf a'r diolchgarwch, a rhan pawb ohonom wrth ofalu am y greadigaeth. Yna nos Lun, 14 Hydref cafwyd pregeth y Diolchgarwch gan ein gweinidog, y Parchedig Richard Gillion.
**GOHEBYDD .** GWENDA DAVIES

## Bethel, Prestatyn

**GWASANAETH CROESAWU**
Cafwyd gwasanaeth arbennig i groesawu ein gweinidog newydd sef y Parchedig Brian Huw Jones ddechrau Medi. Mae Brian yn weinidog ar ein chwaer Eglwys, Rehoboth, ac rydym yn ffodus iawn ei fod wedi cytuno i fod yn Fugail arnom ninnau hefyd. Yn dilyn y gwasanaeth mwynhawyd cinio blasus yn yr ysgoldy. Pob bendith i Brian a Helena yn eu gwaith yma ym Methel.

Dyma lun o'r plant yn gwrando'n astud ar Brian yn dweud stori wrthynt yn ystod y gwasanaeth.





**YR YSGOL SUL**
Rydym wrthi'n paratoi ein coeden ar gyfer Gŵyl Coed Nadolig y dref. Ein thema eleni yw 'Cadwyn o Gariad' ac mae'r plant yn dysgu am bwysigrwydd rhannu ein cariad i eraill. Hyfryd yw gweld aelodau newydd yn dod i'r Ysgol Sul. Croeso mawr i'r efeilliaid Marley a Willow ac i Twm – y tri yn ddim ond ychydig wythnosau oed.

**NOSON GYMDEITHASOL REHOBOTH A BETHEL**
Cawsom noson arbennig yn ddiweddar gyda'n cyfeillion o gapel Rehoboth, Prestatyn. Mwynhawyd cinio blasus tri chwrs ac wedyn adloniant.

**MERCHED METHODISTAIDD**
Diolch o galon unwaith eto am gefnogaeth pawb a ddaeth i gyfarfod yr Hydref, a diolch arbennig i chwiorydd Rhyd y Foel am y te blasus.

**Y GYMDEITHAS LENYDDOL**
Agorwyd tymor newydd y Gymdeithas ar Hydref 24ain gyda Swper Cynhaeaf a sgwrs gan Mr Ieuan ap Siôn. Diolch yn fawr am y rhoddion o fwyd blasus i'r swper.

**HOBETH**
Dyma'r enw ar ein Cymdeithas Chwiorydd newydd ar y cyd rhwng Bethel a Rehoboth, sydd yn cyfarfod ar bnawn Llun olaf y mis. Trip i Tweedmill i siopa a rhannu paned a chacen oedd ein cyfarfod cyntaf ac yn yr ail gyfarfod croesawyd Mrs Carys Davies. Cawsom sgwrs ddiddorol ar y testun 'Myfi yw Bara'r Bywyd'.

**LLITH A CHAROL**
Cynhelir Gwasanaeth Llith a Charol Merched y Wawr Rhanbarth Colwyn ym Methel ar nos Fawrth 3ydd o Ragfyr. Croeso cynnes i bawb.

**PWYLLGOR APÊL PRESTATYN I EISTEDDFOD YR URDD, SIR DDINBYCH**
Edrychwn ymlaen at ein Cyngerdd Nadolig, a drefnir gan y Pwyllgor Apêl, bnawn Sul y 15fed o Ragfyr gyda Chôr Bangor a Chôr Ysgol y Llys.

**DRWS AGORED**
Byddwn yn cynnal drws agored eto eleni ar y ddau fore Mercher cyn y Nadolig. Cyfle i unrhyw un ddod i mewn i weld y Capel wedi ei addurno ar gyfer y Nadolig, treulio ychydig o amser tawel a mwynhau paned a mins pei.
**GOHEBYDD .** GWENDA HUMPHRIES

## *Bethel, Rhiwbeina*

**GWASANAETHAU**
Yn ystod mis Hydref, croesawyd Mr Emlyn Davies, y Parchg Dafydd Owen a'r Parchg R Alun Evans i arwain ein haddoliad. Yn ogystal cafwyd gwasanaeth Cymun dan ofal ein gweinidog y Parchg Evan Morgan.

**Y GYMDEITHAS**
Ar 5 Hydref aeth nifer o'r aelodau am dro o amgylch y llyn ym Mharc y Rhath. Cafwyd cyfle wedyn am baned a sgwrs felys yn y caffi ger y llyn. Ar 19 Tachwedd cynhaliwyd Bore Coffi yn y capel. Rhoddwyd yr elw tuag at Brosiect y Digartref yn Salem, Treganna. Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

**Y CÔR**
Mae côr y capel wedi dechrau ymarfer ar ôl y gwasanaethau bob Sul ar gyfer gwasanaeth Nadolig yr aelodau ar 15 Rhagfyr. Diolch i Gwilym am drefnu eleni eto.
**GOHEBYDD .** GWILYM E ROBERTS

## *Triniti, Pontarddulais*

**LLONGYFARCH**
Llongyfarchiadau i Aled Owen sydd wedi graddio ym Mhrifysgol Leeds gydag Anrhydedd Dosbarth Cyntaf yn y Celfyddydau. Mae Aled yn ddawnus iawn, fel y gwelsom pan oedd yn cymryd rhan yn blentyn yng ngwasanaethau'r Nadolig yma yn y Triniti. Dros wyliau'r haf bu yn Ynys Creta yn gweithio'n wirfoddol i helpu i ddiogelu bywyd gwyllt y glannau.

Llongyfarchiadau hefyd i Nia ac Eleri Thomas, plant Melville Thomas ac wyresau Raymond a Mair Thomas, ar eu llwyddiant arbennig yn arholiadau'r haf. Mae Nia bellach wedi dechrau ar ei hastudiaethau ym Mhrifysgol Caerdydd ac Eleri yn y Chweched Dosbarth yng Ngholeg Gorseinon.

Llongyfarchiadau arbennig iawn i Gerallt Davies a anrhydeddwyd â'r MBE am ei gyfraniad dros y blynyddoedd i elusen St John's Cymru. Mae Gerallt yn Gomisiynydd Sir a Rheolwr Cenedlaethol ac mae wedi datblygu arbenigedd o ran rheoli a threfnu digwyddiadau eang a phwysig. O dan ei arweiniad mae St John's Cymru wedi dod yn flaengar o ran cynnig cymorth cyntaf i ddigwyddiadau yn cynnwys Gornest Derfynol UEFA, Sioe Awyr Cymru a Marathon Caerdydd. Mae Gerallt bob amser yn rhoi ei orau i gefnogi a chynnal yr elusen werthfawr hon ac mae'n berson hawddgar, diymhongar a diwyd sydd yn adlewyrchiad cywir a theilwng o'i rieni Eifion ac Avril Davies. Wrth sôn am Gerallt fe gofiwn hefyd am y ddiweddar Nalda Rees, a fu'n aelod ffyddlon a gweithgar yn y Triniti ac a wnaeth hefyd dderbyn yr MBE am ei gwaith yn y gymuned.

**TOSTRWYDD**
Rydym yn falch iawn fod Margaret Bowen, ein haelod hynaf sydd bellach yn ei nawdegau, yn gwella yn dilyn anffawd diweddar. Rydym fel Eglwys yn danfon ein dymuniadau gorau ati. Mae Mair a Raymond Thomas yn parhau i fod yn frau eu hiechyd a heb allu dod i wasanaethau'r Sul ers amser. Rydym yn gweld eu heisiau.

**CYDYMDEIMLO**
Cydymdeimlwn yn ddwys â'r Parchedig Ddr. Ian Morris, y bu farw ei fam yn ystod yr haf eleni. Bu ei marwolaeth sydyn yn ergyd fawr i deulu'r mans.
**GOHEBYDD .** J R JONES

## *Jerwsalem, Wrecsam*

**PRIODAS**
Priodwyd Owain Dafydd Morgan a Lucy Joy Evans yn eglwys St Joseph, Merryhill, Wolverhampton ar ddydd Gwener 4 Hydref. Maent ar hyn o bryd yn byw yn Dorchester-on-Thames, Swydd Rhydychen. Pob dymuniad da i chi, Owain a Lucy.





# EBENESER, CAERNARFON

*Dyma ran o anerchiad y Parchedig Philip Barnett yn y cyfarfod a gynhaliwyd ddiwedd Awst pan gafodd yr achos ei ddirwyn i ben yn Ebeneser, Caernarfon. Er gwaethaf ymdrechion glew cynulleidfa Ebeneser a Chylchdaith a Synod Cymru i achub yr adeilad hardd, oherwydd aflwydd y pydredd sych fe waethygodd ei gyflwr nes ei bod yn amhosibl parhau i'w gynnal.*




Nid yw'n fawr o gysur i ni heno, ond gwyddom fod cannoedd o gapeli eraill ar hyd a lled Cymru a thu hwnt yn yr un sefyllfa â ninnau. Mae pob capel yn golygu llawer i'r rhai sydd yn addoli ynddo ac yn sicr nid yw Ebeneser yn eithriad. Mae lle arbennig iawn i Ebeneser yn ein hemosiynau a'n teimladau.

Gadewch i ni fynd yn ôl am foment, yng nghwmni'r hanesydd Dr Hugh Jones. Y pregethwr Wesleaidd cyntaf i draddodi ei genadwri yng Nghaernarfon oedd y Parch Owen Davies, a bregethodd yng nghapel yr Hen Gorff am 7 o'r gloch ar Fedi 15fed 1800. Yna, ymhen dwy flynedd yn 1802 cychwynnodd Mr Bryan a Mr Jones, Bathafarn, ar daith genhadol i Arfon a Môn. Cyraeddasant Gonwy a thraethasant eu cenadwri yno. Drannoeth aethant i Gaernarfon. Ar ôl cyrraedd, anfonasant y crier trwy'r dref i hysbysu y byddai dau bregethwr Wesleyaidd yn pregethu ym Mhen Rallt y noswaith honno. Ond, yn lle hysbysu mai dau o'r Wesleyans oedd i bregethu, cyhoeddodd yr hen frawd mai dau o'r Welsh Lions oedd y pregethwyr. Clywodd Mr Bryan ef yn gwneud y camgymeriad a'i gymell i ddweud Wesleyans ond doedd waeth heb, Welsh Lions y mynnai ef eu galw. Enynnwyd chwilfrydedd y trigolion a daeth tyrfa ynghyd!

Codwyd y capel cyntaf yn y flwyddyn 1805 ac wedyn ym 1824 penderfynwyd adeiladu capel newydd ar dir cyfagos i'r capel gwreiddiol. Dyma'r capel mwyaf a adeiladwyd gan y Wesleaid yng Nghymru hyd y pryd hwnnw ac yr oedd y draul yn £3,486. Ar ddiwedd y gwaith, cyn y Sul cyntaf yn y capel, roedd gwasanaeth ar noson waith pan bregethwyd yn y capel gan ryw Mr Davies, ar 9fed Ebrill 1826, ar y testun "Ebeneser – hyd yma y cynorthwyodd yr Arglwydd nyni".

A thrwy'r blynyddoedd, hyd heddiw, dyna fu hanes Ebeneser. Fan hyn mae pobl wedi darganfod cysur a chefnogaeth a sialens. Fan hyn mae pobl wedi cael eu tynnu at y Groes, fan hyn mae pobl wedi darganfod pwrpas a chyfeiriad i'w bywydau, fan hyn mae pobl wedi dod i adnabod Iesu Grist yn Arglwydd a Gwaredwr. Ac yn sgil hyn oll mae dylanwad yr eglwys hon wedi mynd allan, wedi effeithio ar fywydau pobl y dref. Yn y diwedd, nid stori am frics a morter yw hanes unrhyw eglwys ond hanes y bobl sydd wedi bod yno i lawr y cenedlaethau.

Hoffwn ddweud dau beth am hyn. I ddechrau, nid yw ein gwaith ni dros Dduw byth wedi ei wastraffu. Mae rhai ohonoch wedi bod yma ar hyd eich oes; wedi cael eich bedyddio yma, eich derbyn, hwyrach wedi priodi yn Ebeneser a chladdu anwyliaid yma. Eraill wedi dod yn ddiweddarach – ond rydym i gyd yn rhan o Eglwys Crist yn ei chyfanrwydd. Rydym i gyd yn derbyn o waith y rhai sydd wedi mynd o'n blaenau. Rydym wedi etifeddu eu ffydd, eu hymrwymiad, eu teyrngarwch. Mae perygl weithiau i ni feddwl ein bod ni wedi eu gadael hwy i lawr. Ond mae hynny yn bell, bell o'r gwirionedd. Rydych chi wedi gweithio, wedi aberthu, wedi rhoi yn hael o'ch gallu a'ch doniau yng ngwasanaeth Duw. Ac mae'n hollbwysig cofio nad yw'r gwaith a wnaed dros Dduw, y dystiolaeth i'w gariad a'i drugaredd a'i faddeuant, byth yn ofer. Bydd pobl yn adeiladu ar y gwaith a wnaethom ninnau a bydd ei ddylanwad yn parhau yng nghalonnau a bywydau y rhai a gyffyrddwyd gan dystiolaeth Ebeneser.

Yn ail, yng nghanol ein tristwch a'n galar, mae gobaith. Nid chi sydd ar fai – buoch yn ffyddlon er i chi fyw drwy gyfnod o bryder mawr a gorfod wynebu'r golled hon. Ond cofiwch, os diflannodd yr hen eglwys fe erys yr eglwys newydd i gael ei geni. Yng nghanol ein galar a'n tristwch, mae gobaith. Nid yw Duw wedi gorffen hefo ni eto.

Pa waddol mae Ebeneser yn ei adael yng Nghaernarfon? Hyd y gwelaf y mae'r gwaddol yng nghalonnau a bywydau y bobl a gyffyrddwyd gan fywyd Ebeneser drwy'r blynyddoedd. Hwyrach nad yw'r gwaddol yn weladwy ond mae yno, ym mywydau'r bobl sydd wedi darganfod cysur a chefnogaeth o fewn y muriau hyn; y rhai sydd wedi cyfarfod â Iesu ac, yn sgil hynny, wedi canfod ffordd newydd i fyw; y rhai sydd wedi teimlo maddeuant Iesu ac wedi dechrau o'r newydd. Y rhai hwyrach sydd wedi cael hyd i gyfeillgarwch a chwmpeini. Dyma waddol Ebeneser ymhlith pobl y dref.

Nid yw ein pererindod ni wedi dod i ben oherwydd bod drysau Ebeneser wedi cau. Mae Duw yn ein harwain ni i waith newydd mewn meysydd eraill. Gadewch i ni fod yn barod i ymateb. Daliwch ati, gwnewch eich gorau oherwydd, fel y dywedodd Pedr yn ei ail epistol, rydych yn rhan o adeiladu'r nefoedd newydd a'r ddaear newydd lle bydd cyfiawnder yn cartrefu. Yn llaw'r Pensaer ac nid yn eich llaw chi y mae gweithio'r pwrpas a'r cynllun, hyd nes y cyflawnir y gwaith ac y bydd Duw oll yn oll.

# Wrth fynd heibio

### *gan William H Owen*



Waeth i mi gyfaddef fy mod yn perthyn i oes arall cyn belled ag y mae'r Nadolig yn y cwestiwn. Ychydig iawn sydd gen i i'w ddweud bellach wrth holl sbloet ein dyddiau ni. Er fy mod yn hŷn na *Caniadaeth y Cysegr* erbyn deall, doedd y Nadoligau yn fy machgendod ddim yn rhai llwm. Dydw i ddim yn ddigon hen i gofio dathlu geni Crist gyda dim ond afal ac oren yng ngwaelod y sach. Na, roedd pethau'n fwy llewyrchus ar ôl yr Ail Ryfel Byd yn ein tŷ ni er fod fy rhieni, cyn hynny, wedi gorfod gwneud ar ychydig iawn.

Roedd rhythu yn ffenest siop Huwcyn Dafis yn y pentref yn orchwyl flynyddol yn nyddiau Santa Clôs, y cyfnod cyn i 'Siôn Corn' ddod i'n byd. Wrth gwrs mae cyfeirio at siop gyda'r fath enw i'w pherchennog yn gwneud i rywun deimlo fel Methwsela. Er gwaethaf ei enw roedd yn dod o hyd i'r teganau diweddaraf i gyd i'w rhoi yn ei ffenest rai wythnosau cyn y Nadolig – ond nid ym mis Hydref fel mae hi heddiw yn y siopau mawr, a bach!

Dewis Huwcyn oedd yn rheoli ac yn sbarduno'r llythyr i Santa. Ac yn wir roedd wedi gwrando ar y cais hyd y gallaf gofio. Deuai i osod ei atebion mewn bag cymedrol ei faint (nid plastig chwaith) wrth waelod y gwely. Cyn i'r ceiliog ganu roeddwn yn gweiddi, "Mae o wedi bod!"



Ni pharodd y blynyddoedd rheini'n hir a distawodd fy mloedd. Dyddiau blin a rhwystredig a ddilynodd pan nad âi llythyr i'r gogledd pell na neb yn galw yn oriau mân bore'r Nadolig. Hawdd yw credu fy mod yn adleisio teimladau plant yr oesau fod eu Nadoligau wedi bod yn wag iawn ar ôl y dadrithio mawr. Yn wir, dydw i ddim yn siŵr iawn a ddois i dros y dadrithiad.

Dyna pam, efallai, nad oes swyn i mi yn nathliadau materol y Nadolig. Gwn mai gŵyl i ddathlu geni mab Mair a Joseff yw hi – er na chofiaf fod drama'r geni yn ein capel ni ers talwm – ond mae llai a llai yn ymwybodol mai dyna yw ei diben. Gŵyl fasnachol yw'r Nadolig gyda phob Dic a Harri, a Jane a Janet, mewn busnes yn ei throi yn fodd o wneud elw.

Ac os nad elwa o'r Ŵyl yw'r nod â eraill ati i wario arian prin i oleuo'r strydoedd iddi 'deimlo fel Nadolig'. Wrth wneud mae gwir ystyr y pumed ar hugain o Ragfyr, a'r llifolau ar y preseb, wedi hen ddiflannu.

---

## DYDD GWEDDI'R BYD IS-BWYLLGOR CYMRAEG (Rhyngenwadol)

Cofiwch os hoffech wneud cais am grant i ariannu prosiect arbennig, gallwch gael **Ffurflen Gais** oddi wrth y trysorydd Mrs Margaret Morgan ar (01978) 756717 / margaretmaudmorgan@gmail.com. Y dyddiad cau ar gyfer 2020 fydd diwedd mis Mawrth ac fe benderfynir ar y ceisiadau ym mis Mai.

---


Y mae'n bleser gan **Cyngor Ysgolion Sul Cymru** eich gwahodd i

**Oedfa o Ddiolchgarwch am waith Gobaith i Gymru a beibl.net**

Ac i glywed am gynlluniau cyffrous ar gyfer y Beibl yng Nghymru i'r dyfodol

**DYDD SADWRN, 29 CHWEFROR 2020 AM 2 Y.P.**
yng Nghapel Penuel, Caerfyrddin, SA31 1NH

Byddwn yn dathlu bod gwefan beibl.net bellach yn 18 oed ac yn lansio dwy wefan Gristnogol newydd.
Pregethir gan y **Parchg. Ddr. Geraint Tudur**.

**Cyngor Ysgolion Sul**

Cyflwynir Tysteb i **Arfon Jones a Gwenda Jenkins**, Swyddogion Gobaith i Gymru.

**Croeso cynnes i chi ymuno â ni ar gyfer yr achlysur pwysig hwn ac i ddod ag eraill gyda chi.**

Fe wneir casgliad tuag at waith datblygu y Beibl yng Nghymru ar y dydd.
Am fwy o wybodaeth cysylltwch gyda Aled Davies (aled@ysgolsu.com)


## Grŵp Cristnogol Gofal Canser Ardal Conwy

### *gan Owen Morris*



**"Y mae Duw yn gallu rhoi popeth da i chwi yn helaeth, er mwyn i chwi, ar ben eich digon bob amser ym mhob peth, allu rhoi yn helaeth i bob gwaith da…Ym mhob peth cewch eich cyfoethogi ar gyfer pob haelioni, a bydd hynny trwom ni yn esgor ar ddiolchgarwch i Dduw."** 2 Corinthiaid 9:8-11 (BCN)

Gwelwyd haelioni mawr ym Methel, Deganwy ar fore Sadwrn 28ain o Fedi, pan godwyd dros £400 mewn bore coffi oedd yn rhan o 'Fore Coffi Mwya'r Byd' elusen canser Macmillan. Mae Grŵp Gofal Canser Ardal Conwy yn ddiolchgar am yr holl gefnogaeth a'r rhoddion hael a dderbyniwyd mewn arian ac mewn ffyrdd eraill. Diolch yn arbennig i chwiorydd Bethel, Megan, Marina, Ann a Wendy am eu brwdfrydedd a'u parodrwydd bob amser i wasanaethu – ac yn enwedig am y cacennau blasus! Braf iawn oedd cael cwmni'r Parchg Ddr Trevor Hoggard, Arolygydd newydd Cylchdaith Cymru, a'i wraig Cathie.

Yn sicr fe welwn ar waith yma thema Synod Cymru ar gyfer 2019/20, sef **estyn allan i'r gymuned**.

Am fwy o fanylion am y Grŵp Canser cysyllter ag Owie Morris, 0750570311 neu owen.r.morris@aol.co.uk



# Pan ddaw'r dydd

### *gan y Parchedig Philip Barnett*



Daw'r flwyddyn newydd unwaith eto a phatrwm y byd yn mynd yn ei flaen. Pawb yn cyfarch ffrindiau a theulu gyda 'Blwyddyn Newydd Dda' a phawb yn llawn gobeithion a dyheadau. Fel rheol, unai yn breifat neu'n gyhoeddus, bydd llawer yn gwneud addunedau. Mae'r flwyddyn sydd o'n blaenau yn debyg i gae ar ôl eira mawr, heb yr un ôl troed i'w weld arno ac fel petai'n disgwyl i gerddwyr gamu ar ei draws.

Mae'n fendith nad ydym yn gwybod beth fydd yn ein hwynebu ni yn y dyfodol ond, ar ddechrau blwyddyn newydd, fe ddaw gwasanaeth Adnewyddu'r Cyfamod gyda'r holl oblygiadau sydd iddo. A chyda miloedd o bobl eraill yn yr Eglwys Fethodistaidd a hefyd mewn enwadau eraill sydd wedi mabwysiadu'r gwasanaeth hwn byddwn yn gweddïo "dod fi i weithio, dod fi i ddioddef; gosod fi mewn gwasanaeth drosot neu tro fi heibio er dy fwyn...nid wyf mwyach yn eiddo i mi fy hun...yr wyf yn ildio popeth oll i ti".

Nid wyf yn awgrymu am funud fod neb yn dweud y geiriau hyn yn ddifeddwl ond, yn debyg iawn i addunedau priodas, wrth i ni eu hadrodd, rhywbeth pell i ffwrdd, i'n tyb ni, yw unrhyw fath o broblem. Mae'r dyfodol yn ymddangos yn iawn.

Ond, pan ddaw'r dydd mae'n wahanol. Pan ddaw trychineb neu brofedigaeth, pan ddaw problemau teuluol neu bersonol i gynhyrfu patrwm a normalrwydd ein bywyd beunyddiol, mae'r olygfa yn wahanol. Sut fydd hi'n bosib gweddïo'n ddiffuant a chydag ymrwymiad "nid wyf mwyach yn eiddo i mi fy hun" – hynny yw ein bod, er gwaethaf popeth, yn ymddiried yn Nuw gan gredu ei fod Ef yn dal wrth ein hymyl ac yn arwain ein bywyd?

Mae'n bosib y bydd gan y weddi hon ganlyniadau a fydd yn effeithio o ddifrif ar ein bywydau a'n ffydd. Mae bywyd pob un ohonom yn daith, yn daith y mae'n rhaid wrth ffydd i gychwyn arni. Mae'r daith yn mynd â ni y tu hwnt i'r sicrwydd sydd gennym nawr i sefyllfa ddieithr a'r unig gyfarwyddyd sydd gennym yw llais Duw sydd wedi arwain a chefnogi ein hynafiaid i lawr y canrifoedd.

Pan ddaw'r dydd mae'n ddigon hawdd teimlo bod Duw wedi ein gadael ni er ein hymdrechion i fod yn ffyddlon iddo Ef. Bydd rhai ohonoch yn cofio'r diweddar Barchedig JW Jones oedd yn dipyn o gymeriad efo'r Hen Gorff. Wrth sôn am y teimlad yma fe ddywedodd "deith o ddim heb adael ei *address* ar ôl!"

Yn aml, yng ngoleuni gweddi Adnewyddu'r Cyfamod, pan ddaw'r dydd byddwn ar goll rywsut. Rwy'n ceisio cadw mewn cof yr hyn a ddywedodd rhywun wrthyf flynyddoedd yn ôl sef "nid yw ffydd yn ateb ein cwestiynau i gyd ond mae yn ein galluogi ni i fyw gyda'r cwestiynau".

# Croeso Adre

### *gan Edwina Stephen*




A hithau'n 80 o flynyddoedd ers dechrau'r ail ryfel byd, mi wnes i ddarganfod ymhlith papurau fy niweddar dad, Robert John Lloyd-Jones, brodor o Gerrig y Drudion, hanes 'social' a gynhaliwyd ym Mathafarn, Rhuthun yn Nhachwedd 1946 i groesawu'n ôl rai o'r brodyr fu yn y lluoedd arfog.

Roedd nifer, fel fy nhad, wedi mynd i ffwrdd yn fechgyn ifanc dibrofiad ond erbyn diwedd y rhyfel wedi gweld llawer ar y byd, a rhai erbyn hynny yn wŷr priod. Dywed y gohebydd yn y *Gwyliedydd Newydd,* Dydd Iau Rhagfyr 5, 1946 fod gwledd ardderchog wedi ei pharatoi gan chwiorydd caredig Bathafarn, a phawb wedi cael eu digoni.

"Yr oedd y bwyd yn dda ac yn flasus. Ni welwyd rhai o'r pethau a oedd ar y byrddau er cyn dechrau'r rhyfel. Wedi gwledda cawsom ychydig hamdden i gael sgwrs â'n gilydd ac wedi hynny i wrando ar y Parch G E Breeze yn estyn croeso ar ran yr eglwys i'r cyn-filwyr a'u gwragedd. Dywedodd ein bod wedi ceisio cadw mewn cyffyrddiad â hwynt drwy flynyddoedd y rhyfel. Ceisiwyd hefyd gofio amdanynt drwy anfon rhodd fechan iddynt bob Nadolig, ac fe offrymwyd gweddïau lawer drostynt wrth orsedd gras. Gwnaethom hefyd fel eglwys gasgliadau arbennig tuag at bwrcasu rhodd iddynt ar eu dychweliad adref."

Ychwanega'r gohebydd fod un o'r bechgyn, sef Tecwyn Morris, Railway Terrace, heb ddychwelyd o'r drin, ac fe gyfrannodd rhai o'r cyn-filwyr tuag at gael Beibl mawr i'w roi ar y pulpud er cof am y brawd ifanc hwn.

Oherwydd caredigrwydd pobl gartref a fu'n casglu arian yn ystod blynyddoedd y rhyfel, er mwyn gallu rhoi anrheg i'r bechgyn pan ddeuent yn ôl, fe dderbyniodd Dad y waled hon gyda'i enw a'r dyddiad.

# TUDALEN Y PLANT

**Mae pawb yn edrych ymlaen at y Nadolig ac yn llawn cyffro. Cofiwch ddweud diolch am bob peth fyddwch chi'n ei gael! A chofiwch ddweud gweddi i ddiolch i Dduw.**

Ein Tad, helpa ni i gofio am enedigaeth Iesu Grist

ac ymuno i ganu mawl iddo fel yr angylion.

Cofiwn am y bugeiliaid a'r doethion a ddaeth i weld y baban yn y preseb.

Cofiwn fod Iesu wedi dod er mwyn pawb

a gad i ni rannu llawenydd a chariad â phawb.

Amen.



**Mae 10 gwahaniaeth rhwng y ddau lun yma o Siôn Corn.**

**Beth am gael hyd iddyn nhw i gyd?**

